Prifysgol Abertawe yw'r Rheolydd Data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU). Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r unigolyn hwnnw drwy e-bostio dataprotection@swansea.ac.uk.

Bwriad y ffurflen hon yw i'n helpu ni i gefnogi myfyrwyr Prifysgol Abertawe i gael mynediad i'n rhaglen Hwb Gyrfaoedd a'i gwneud yn hawdd i chi roi eich gwybodaeth bersonol i ni, gan gynnwys gwybodaeth categori arbennig, os ydych yn dymuno cofrestru ar y rhaglen a dysgu rhagor am sut gallwn eich cynorthwyo.

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i gynnig gwasanaethau cymorth wedi'u teilwra i fyfyrwyr, gan gynnwys apwyntiadau un i un a chyfleoedd profiad gwaith. Caiff yr wybodaeth ei defnyddio at ddibenion dyrannu cyllid megis bwrsariaethau cyflogadwyedd i'ch helpu i oresgyn rhwystrau ariannol i gyflogaeth. Caiff eich gwybodaeth ei defnyddio hefyd i hyrwyddo'n gwasanaethau wrth i chi dderbyn gwybodaeth ynghylch digwyddiadau a chyfleoedd perthnasol. **Ni chaiff** ei defnyddio i wneud penderfyniadau awtomataidd.

Bydd Prifysgol Abertawe yn defnyddio eich gwybodaeth i sicrhau ein bod yn cyrraedd cyfranogwyr a fydd yn elwa fwyaf o'r gefnogaeth a gynigir gan y rhaglen. Drwy gwblhau'r ffurflen hon a rhannu eich gwybodaeth gallwn ddeall eich anghenion unigol yn well, yn ogystal â deall â pha fyfyrwyr rydym yn cysylltu.

*Y sail gyfreithlon yr ydym yn dibynnu arni ar gyfer prosesu data personol yw: 'processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller'.*

Mae cyllid wedi'i ddarparu i Brifysgol Abertawe gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth arbenigol wedi'i deilwra i unigolion sy'n perthyn i un neu fwy o'r categorïau a restrir isod:

- Myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal (sydd wedi bod yn y system ofal, ymadawyr gofal)
- Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teulu
- Myfyrwyr sy'n ofalwyr (perthynas neu ffrind ac eithrio plant oni bai eu bod yn anabl neu fod ganddynt gyflwr meddygol hirdymor)
- Myfyrwyr aeddfed dros 21 oed wrth gyrraedd y brifysgol
- Myfyrwyr anabl
- Myfyrwyr sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol
- Myfyrwyr Niwroamrywiol (e.e. ADHD, Awtistiaeth, Dyslecsia, Tourettes)
- Myfyrwyr o Grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y DU
- Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
- Myfyrwyr sy'n perthyn i'r gymuned LGBTQ+
- Myfyrwyr o deuluoedd sydd ag incwm isel
- Myfyrwyr sydd o'r genhedlaeth gyntaf yn eu teulu i fynd i'r brifysgol
- Myfyrwyr o'r gymuned Sipsiwn neu Deithwyr
- Myfyrwyr sy'n cymudo i'r brifysgol yn ddyddiol o'u cartref teuluol

Drwy gwblhau'r ffurflen hon a rhannu'ch gwybodaeth categori arbennig, bydd tîm y prosiect yn gallu darparu cymorth ac arweiniad sydd o fudd unigol wrth hefyd ystyried y categorïau arbennig

a nodwyd.

*Y sail gyfreithlon yr ydym yn dibynnu arni ar gyfer prosesu data personol yw: 'processing is necessary for reasons of substantial public interest'.*

Byddwn yn cadw'r data personol rydych chi'n ei ddarparu i ni tan ddiwedd y prosiect neu tan ddiwedd eich astudiaethau academaidd, pa bynnag un ddaw yn gyntaf.

Cedwir eich gwybodaeth ar ffurf adnabyddadwy at ddibenion darparu cymorth i fyfyrwyr yn unig. Caiff eich gwybodaeth ei storio yn ddiogel. Caiff pob un o'ch atebion ei drin yn gwbl gyfrinachol, a bydd unrhyw ddata a rennir yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. Rhagor o wybodaeth: [https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cydymffurfiaeth/diogelu-data/](https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cydymffurfiaeth/diogelu-data/).

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i'ch gwybodaeth bersonol gael ei phrosesu, i gywiro, dileu a chyfyngu ar fynediad at eich gwybodaeth bersonol a'i throsglwyddo. Ewch i dudalennau gwe'r Brifysgol am ddiogelu data i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau. Dylid cyflwyno ceisiadau neu wrthwynebiadau'n ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol -
Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data)
Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: [dataprotection@abertawe.ac.uk](mailto:dataprotection@abertawe.ac.uk)

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd mae'ch gwybodaeth bersonol wedi cael ei phrosesu, i ddechrau, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon wedi hynny, mae gennych yr hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael penderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy – Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).